

Ad-drefnu Gwasanaethau Dan Arweiniad Bydwragedd: Cwestiynau Cyffredin

Pam y mae'r bwrdd iechyd yn cynnig y newidiadau hyn?

Ceir dau brif reswm:-

Yn gyntaf, ers agor Ysbyty Athrofaol y Faenor yn 2020, mae nifer o fenywod sy'n rhoi genedigaeth dan arweiniad bydwragedd yn dewis gwneud hynny yn y fan honno, yn hytrach nag yn ein hunedau geni annibynnol yn ein hysbytai cyffredinol lleol.

Yn ail, rydym wedi cael anawsterau parhaus i recriwtio a chadw digon o fydwragedd ar gyfer cynnal ein trefniadau blaenorol mewn modd diogel a chynaliadwy.

A fydd pob opsiwn geni yn dal i fod ar gael imi?

Bydd. Bydd modd ichi barhau i gael mynediad at enedigaeth obstetrig (dan arweiniad meddygon), genedigaeth dan arweiniad bydwragedd ochr yn ochr ag uned obstetrig, genedigaeth mewn uned annibynnol dan arweiniad bydwragedd neu enedigaeth yn y cartref.

A oes digon o le yn Ysbyty Athrofaol y Faenor?

Oes. Mae ein cynlluniau wedi dangos bod digon o le yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ar gyfer darparu'r trefniadau arfaethedig.

Pa opsiynau geni dan arweiniad bydwragedd a fydd ar gael imi?

Byddwch yn dal i allu cael mynediad at enedigaeth mewn uned annibynnol dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan neu enedigaeth dan arweiniad bydwragedd ochr yn ochr â'r uned obstetrig yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

A fydd modd imi barhau i roi genedigaeth yn y cartref?

Bydd. Gallwch barhau i roi genedigaeth i'ch baban yn y cartref.

A fydd modd imi barhau i roi genedigaeth mewn dŵr?

Bydd. Bydd modd ichi barhau i roi genedigaeth mewn dŵr. Mae gennym gyfleusterau o'r fath yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, yn Ysbyty Aneurin Bevan ac yn Ysbyty Ystrad Fawr.

A fydd fy ngofal cynenedigol yn aros yr un fath?

Bydd. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer eich gofal cynenedigol yn aros yr un fath.

A fyddaf yn parhau i gael bydwraig benodol?

Byddwch. Ni fydd y trefniadau'n newid ar gyfer menywod sydd â bydwraig benodol yn goruchwyllo'u gofal.

Beth os oes gennyf anawsterau teithio?

Pe bai gennych unrhyw bryderon ynglŷn â theithio i'r lleoliad y bwriadwch roi genedigaeth, siaradwch â'ch bydwraig benodol i gael cyngor ac arweiniad.